

# Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Dilynol i Gleifion Allanol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3674A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran cyflawni gwelliant sylweddol i wasanaethau dilynol i gleifion allanol a rhoi ein hargymhellion archwilio blaenorol ar waith 7

Mae pryderon sy'n parhau ynghylch oedi gydag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn amlygu pwysigrwydd rhoi ein hargymhellion archwilio ar waith fel rhan o weithgareddau ehangach i wella gwasanaethau i gleifion allanol 13

## Atodiadau

Atodiad 1 – Ymateb y rheolwyr i argymhellion a wnaed yn 2015 sy'n dal heb gael eu cwblhau 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae cleifion sy'n cael apwyntiad mewn ysbyty neu glinig ond nad oes angen iddynt aros dros nos yn cael eu categorio fel cleifion allanol. Gall yr apwyntiad fod ar gyfer triniaeth, diagnosis, neu fân driniaeth. Os yw apwyntiadau dilynol yn cael eu trefnu gyda'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, caiff y rhain eu categorio fel apwyntiadau dilynol i gleifion allanol.
- 2 Rydym wedi adolygu gwasanaethau dilynol i gleifion allanol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) ddwywaith dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2015 fe gynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o apwyntiadau dilynol i gleifion allanol ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Daeth ein gwaith yn y Bwrdd Iechyd i'r casgliad canlynol: 'Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu niferoedd cynyddol o achosion o oedi mewn perthynas ag apwyntiadau dilynol i gleifion ac nid yw'n gwbl ymwybodol o'i risg gwasanaeth clinigol, ond mae'n dechrau cynllunio i foderneiddio ei wasanaethau i gleifion allanol'. Fe wnaethom bum argymhelliad yn yr adroddiad.
- 3 Yn 2017 cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar ganfyddiadau ei asesiad o'r cynnydd o ran rhoi argymhellion 2015 ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Ein casgliad ar y cyfan oedd bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd, ond bod angen o hyd iddo wella'r ffordd yr oedd yn adnabod risgiau a digwyddiadau clinigol, cyflymu'r broses o wneud gwelliannau i wasanaethau, a lleihau'r ôl-groniad o oediadau.
- 4 Ers i ni fwrw golwg ar y maes hwn ddiwethaf, mae gwasanaethau'r GIG wedi profi newidiadau dramatig i'r galw a'r modd y darperir gwasanaethau. Arweiniodd yr achosion o COVID-19 at roi diwedd ar gyflawni gweithgarwch newydd ym maes gofal wedi'i gynllunio yng Nghymru i ddechrau. Ochr yn ochr ag adfer gweithgarwch gofal wedi'i gynllunio cafwyd newid tuag at apwyntiadau rhithwir. Ar y cyd fe helpodd y ffactorau hyn rai cyrff iechyd i leihau eu rhestr aros lle'r oedd apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn y cwestiwn.
- 5 Mae'r ôl-groniadau mewn gofal wedi'i gynllunio a achoswyd gan y pandemig wedi arwain at arosiadau hwy ar lwybrau rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT) a dirywiad cysylltiedig mewn perfformiad o ran amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol.
- 6 Ym mis Mehefin 2022, datblygodd y Bwrdd Iechyd Raglen Trawsnewid Gofal wedi'i Gynllunio sy'n disgrifio sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae'n eu hwynebu mewn perthynas â gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio a'r rhestrau aros sydd wedi cynyddu'n sylweddol. Ceir pedair ffrwd waith i gyflawni'r elfennau penodol o'r Rhaglen Trawsnewid Gofal wedi'i Gynllunio. 'Gofal darbodus i gleifion allanol' yw'r enw ar ffrwd waith dau, sy'n canolbwyntio ar wella gofal i gleifion allanol.
- 7 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r disgrifiadau o'n gwaith diweddaraf ar wasanaethau dilynol i gleifion allanol yn y Bwrdd Iechyd. Roedd ein gwaith yn ceisio ateb y

cwestiwn cyffredinol canlynol: 'A oes trefniadau effeithiol i fynd i'r afael â'r arosiadau hir ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol a datblygu gwasanaethau cynaliadwy i gleifion allanol yn y dyfodol?'. Caiff ein negeseuon allweddol eu nodi yn yr adran ganlynol gyda gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu drwy weddill yr adroddiad hwn.

## Negeseuon allweddol

- 8 Y casgliad ar y cyfan o'n hadolygiad diweddaraf yw bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran rhoi ein hargymhellion archwilio blaenorol ynghylch gwasanaethau dilynol i gleifion allanol ar waith a'i fod yn dal i fod â risgiau clinigol sylweddol sy'n gysylltiedig ag oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol ar draws nifer o arbenigeddau.
- 9 Canfu ein gwaith maes fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhai gwelliannau i'w wasanaethau dilynol i gleifion allanol. Mewn ymateb i'n hargymhellion archwilio blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi:
  - sicrhau ei fod yn adrodd yn briodol wrth Lywodraeth Cymru ar ffigyrau aros ei wasanaethau dilynol i gleifion allanol;
  - gwella'r modd y darperir gwybodaeth reoli i glinigwyr a rheolwyr am wasanaethau dilynol i gleifion allanol; a
  - dechrau rhaglen o waith i ddatblygu dulliau newydd ar gyfer gwasanaethau dilynol i gleifion allanol a gwella'r gwasanaethau hynny.
- 10 Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd ar y cyfan. O'r pum argymhelliad gwreiddiol o'n hadroddiad yn 2015, dim ond un sydd wedi'i gwblhau'n llawn ac mae angen gwaith pellach i roi'r argymhellion sy'n weddill ar waith yn llawn.
- 11 Canfu ein gwaith ei bod yn dal yn ofynnol cryfhau trefniadau ar gyfer adrodd ar risgiau clinigol a goruchwylio risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag oedi cyn y ceir apwyntiadau dilynol. Ceir rhestrau aros sylweddol a chynyddol gydag oedi brawychus o hir mewn perthynas ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol o fewn arbenigeddau penodol fel offthalmoleg. Dylai fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau eglur i fonitro a rheoli'r risgiau clinigol hyn ar lefel arbenigedd. Mae angen i'r rhain gael eu goruchwylio'n gorfforaethol a dylent ddarparu sicrwydd rheolaidd ar gyfer y Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd camau gweithredu a gymerwyd.
- 12 Mae rhaglen gwella y Bwrdd Iechyd i wella gofal i gleifion allanol yn llwyddo i lywio'r broses barhaus o roi'r llwybrau 'Sylw yn ôl Symptomau' ac 'Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf' ar waith. Mae'r rhain yn cynnig y potensial i gynyddu effeithlonrwydd a phrofiad cleifion. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fuddsoddi yn ei raglen i wella gwasanaethau i gleifion allanol, mae llawer o risgiau a heriau o hyd sy'n rhwystr i lefel a chyflymder y gwelliant y mae ei angen. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg arweinyddiaeth glinigol ar gyfer y rhaglen wella, a diffyg eglurder ynghylch yr adnoddau cylchol sydd ar gael ar gyfer gweithgarwch gwella.

- 13 Ers yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2015, mae niferoedd y cleifion ar y cyfan sy'n aros am apwyntiad dilynol fel claf allanol yn y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r cleifion hynny y bu oedi cyn eu hapwyntiadau'n aros am o leiaf ddwywaith gyn hired ag y dylent fod yn aros (oedi o 100%). Mae llawer o'r rheiny mewn arbenigeddau lle gallai eu cyflwr gynyddu'r risg y byddant yn dioddef niwed oherwydd yr oedi.
- 14 Rhaid i'r Bwrdd Iechyd weithio ar fyrder i fynd i'r afael â'r rhestrau aros cynyddol ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol a'r oediadau y mae cleifion yn eu hwynebu cyn cael apwyntiad dilynol. Fel rhan o hyn mae angen gweithio'n well i reoli risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol y ceir oedi gyda hwy. I wneud hynny, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried yn ofalus sut y mae gwasanaethau'n dod yn fwy effeithlon yn ogystal â pha adnoddau tymor hwy, pellach y bydd eu hangen arno i gyflawni gwelliannau cynaliadwy mewn arosiadau am apwyntiadau dilynol.

## Argymhellion

- 15 At ei gilydd, mae'r argymhellion a wnaed gennym yn 2015 yn dal i fod yn ddilys ac yn ymdrin yn briodol â'r meysydd lle mae ein gwaith archwilio wedi canfod angen am welliant. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei arweinyddiaeth glinigol ar wasanaethau dilynol i gleifion allanol a chryfhau ei ymdrechion i sicrhau ei fod yn rhoi'r argymhellion sydd heb eu cwblhau o'n gwaith archwilio blaenorol ar waith. Rydym wedi gwneud argymhellion ychwanegol i'r perwyl hwnnw (**Arddangosyn 1**).

### Arddangosyn 1: Argymhellion newydd mewn perthynas â gwasanaethau dilynol i gleifion allanol.

#### Argymhellion newydd

- |           |   |
|-----------|---|
| A1 (2023) | Cymryd camau ar unwaith i gryfhau'r arweinyddiaeth glinigol ar gyfer y rhaglen o waith i wella perfformiad gwasanaethau dilynol i gleifion allanol  |
| A2 (2023) | Datblygu ymateb newydd gan y rheolwyr i'r argymhellion archwilio a wnaed yn 2015 sy'n dal heb eu cwblhau a hwnnw'n nodi camau gweithredu eglur i roi'r argymhellion ar waith yn llawn, graddfeydd amser ar gyfer eu rhoi ar waith a'r swyddogion sy'n gyfrifol. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran cyflawni gwelliant sylweddol i wasanaethau dilynol i gleifion allanol a rhoi ein hargymhellion archwilio blaenorol ar waith

- 16 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran rhoi'r llwybrau newydd ar gyfer gofal dilynol i gleifion allanol ar waith ochr yn ochr ag asesiad o'r cynnydd gyda'r argymhellion a wnaethom yn 2015. Fe wnaethom asesu:
- Agweddau ar y rhaglen trawsnewid gofal wedi'i gynllunio sy'n ymwneud â gofal dilynol i gleifion allanol; a
  - chamau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd mewn perthynas â'n hargymhellion blaenorol a beth yn fwy all fod angen ei wneud.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu i helpu i wella gwasanaethau i gleifion allanol fel rhan o waith ehangach i wella gofal wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, mae angen ehangu gwaith ar y rhaglen cleifion allanol i fynd i'r afael ag arosiadau hir am apwyntiadau dilynol

- 17 Ym mis Mehefin 2022, datblygodd y Bwrdd Iechyd Raglen Trawsnewid Gofal wedi'i Gynllunio sy'n disgrifio sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae'n eu hwynebu mewn perthynas â gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio a'r rhestrau aros sydd wedi cynyddu'n sylweddol. O'r gwahanol ffrydiau gwaith Gofal wedi'i Gynllunio, mae ffrwd waith dau'n canolbwyntio ar wella gofal i gleifion allanol. Mae'r gwaith gwella gofal i gleifion allanol yn cwmpasu elfennau eang o wella, gan gynnwys:
- Y llwybr Sylw yn ôl Symptomau<sup>1</sup>;
  - Y llwybr Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf<sup>2</sup>;
  - Ymgynghoriad o Bell ac e-Ymgynghoriad – Apwyntiadau clinig rhithwir a chlinigau grŵp fideo;
  - Unwaith i Ogledd Cymru: egwyddorion Gwasanaethau i Gleifion Allanol;
  - Bwcio'n ganolog; a

<sup>1</sup> Mae'r llwybr Sylw yn ôl Symptomau'n cefnogi cleifion â chyflyrau byrdymor. Mae'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i ryddhau claf i'r gymuned yn gynharach ac yna'n eu galluogi i drefnu apwyntiad os oes angen, megis os yw eu symptomau'n dod i'r amlwg drachefn.

<sup>2</sup> Mae Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf yn darparu mynediad ar gyfer cleifion â chyflyrau hirdymor cronig pan fo'i angen arnynt.

- Dilysu, gan gynnwys adolygu'r polisi Pan Nad yw Claf yn Dod i'r Apwyntiad (DNA).
- 18 Oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti ac arweinyddiaeth glinigol, nid wnaed yr un faint o gynnydd ym mhob maes. Fe flaenoriaethodd y Bwrdd Iechyd ei waith ar y llwybrau Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf ond mae'r cynnydd mewn meysydd eraill wedi bod yn arafach. Nod y llwybrau newydd yw galluogi cleifion i gael mynediad at ofal pan fo'i angen arnynt fwyaf i helpu i reoli eu cyflwr, yn hytrach na dibynnu ar apwyntiadau rheolaidd nad oes mo'u hangen weithiau. O ganlyniad, gall hyn ryddhau capasiti clinigau cleifion allanol. Fodd bynnag, nid yw'r llwybrau newydd yn addas i bob claf, ac mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed i reoli 20% o gleifion trwy'r dulliau newydd hyn.
- 19 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhoi blaenoriaeth i gyflwyno'r llwybrau newydd hyn. Cyrhaeddodd ei darged mewnol i roi 10 o Lwybrau Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf ar waith erbyn mis Mawrth 2023. Ar y cyfan, serch hynny, nid yw'n cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i fod ag 20% o gleifion ar lwybrau newydd. O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2023, fe symudodd 9.1% o gleifion i'r llwybrau newydd hyn, er bod hyn yn welliant o'i gymharu â'r 5.8% a gyflawnwyd ym mis Tachwedd 2022.
- 20 Er bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflwyno dulliau newydd ar gyfer gwasanaethau i gleifion allanol, dim ond i ryw raddau y bydd y llwybrau Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf yn mynd i'r afael â'r niferoedd mawr o gleifion sy'n aros am apwyntiadau. Mae taer angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y bydd cyflawni ei raglen ehangach ar gyfer gwella gwasanaethau i gleifion allanol yn dwyn gwelliannau yn ei berfformiad o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol.

## **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran rhoi ein hargymhellion archwilio blaenorol ar waith**

- 21 Aeth wyth mlynedd heibio ers i ni gyflwyno ein hargymhellion gwreiddiol, ac mae meysydd allweddol sy'n dal i fod angen sylw. Caiff statws pob un o'r argymhellion blaenorol ei ddisgrifio yn **Arddangosyn 2**. Mae **Arddangosyn 3** yn darparu ein hasesiad cryno ni o'r cynnydd yn erbyn y rhain. Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhai camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Fodd bynnag, o ystyried bod perfformiad o ran rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn dirywio, mae'n amlwg bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i hyn.



## Arddangosyn 2: statws argymhellion 2015

Cyfanswm nifer yr argymhellion	Wedi'i roi ar waith	Camau gweithredu'n mynd rhagddynt	Dim gweithredu	Wedi'i ddisodli
5	1	4		

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Arddangosyn 3: asesiad o'r cynnydd yn erbyn argymhellion 2015

Argymhelliad gwreiddiol i gael sylw <sup>3</sup>	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A1 <b>Wedi'i roi ar waith</b> - Cydymffurfio â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno adroddiadau ar nifer yr apwyntiadau dilynol a drefnwyd ac nas trefnwyd i gleifion allanol, yn unol â thempled diwygiedig Cymru gyfan.</p>	<p>Yn 2017 fe wnaethom adrodd bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith. Mae ein gwaith maes diweddaraf yn cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd yn dal i gydymffurfio â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar nifer yr apwyntiadau dilynol a drefnwyd ac nas trefnwyd i gleifion allanol.</p>
<p>A2 <b>Ar y gweill</b> - Datblygu'r warws gwybodaeth busnes ar gyfer cleifion allanol y mae angen apwyntiad dilynol arnynt drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ehangu cwmpas, dyfnder a manylder y wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau y gall rheolwyr a staff gael gafael ar wybodaeth weithredol sy'n berthnasol i'w hangen busnes adrannol.</li> </ul>	<p>Gan adeiladu ar y cynnydd a ganfuom yn 2017, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella systemau cudd-wybodaeth fusnes gwasanaethau i gleifion allanol i helpu staff i reoli gwasanaethau'n well.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dangosfwrdd arosiadau am apwyntiadau dilynol i gofnodi data ar y llwybrau Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf. Mae'r wybodaeth ar y dangosfwrdd yn fyw ac yn sail i gyfarfodydd rheolaidd y grŵp llywio cleifion allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymharu ei berfformiad ar y dangosfwrdd hwn â Byrddau Iechyd eraill i adnabod gwersi ac arfer da. Fodd bynnag, mae dangosfwrdd y Bwrdd Iechyd yn gyfyngedig i lwybrau Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o</p>

<sup>3</sup> Mae Gwyrdd yn dynodi bod yr argymhelliad wedi cael ei roi ar waith; mae Ambr yn dynodi bod camau gweithredu'n mynd rhagddynt i roi sylw i'r argymhelliad; mae Coch yn dynodi na chymerwyd camau gweithredu digonol neu na chymerwyd camau gweithredu o gwbl; ac mae Glas yn dynodi bod yr argymhelliad wedi cael ei ddisodli.

Argymhelliad gwreiddiol i gael sylw <sup>3</sup>	Crynodeb o'r cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio'r wybodaeth i leihau amrywiadau clinigol ar draws safleoedd, cyflyrau clinigol ac ymhlith clinigwyr.</li> <li>Defnyddio'r wybodaeth i ddysgu o weithgareddau 2014-15 er mwyn proffilio'r apwyntiadau dilynol nas trefnwyd a'u lleihau. Ceisio deall pam nad oedd y gwaith proffilio fel y disgwyliwyd a chynnwys hyn yn y taflwybrau ar gyfer 2015-16 (<a href="#">Wedi'i ddisodli</a>).</li> </ul>	<p>bryd yn tynnu gwybodaeth ynghyd ar draws y rhaglen cleifion allanol i'w chynnwys o fewn y dangosfwrdd, y dylid gwneud cynnydd gydag ef yn ystod 2023.</p> <p>Er bod y Bwrdd Iechyd yn dal wrthi'n datblygu'r dangosfwrdd, mae wedi gwella mynediad staff at wybodaeth am wasanaethau cleifion allanol. Mae'r dangosfwrdd yn helpu i adnabod amrywiadau clinigol wrth reoli apwyntiadau dilynol trwy ddarparu darlun o weithgarwch fesul grŵp, arbenigedd a meddyg ymgynghorol. Ond rydym yn deall nad yw hyn wedi llwyddo eto i leihau maint yr amrywiad mewn arosiadau am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol ar draws safleoedd ac yn ôl arbenigedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu gweld defnyddwyr mynychaf y llwybrau Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf newydd.</p> <p>Mae'r rhan hon o argymhelliad 2 wedi dyddio bellach ac nid oes angen gweithredu arni mwyach.</p>
<p>A3 <b>Ar y gweill</b> - Nodi cyflyrau clinigol ym mhob arbenigedd lle y gallai cleifion ddiodesdef niwed na ellid ei wyrddroi os bydd oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol. Datblygu ymyriadau er mwyn lleihau'r risg i gleifion â'r cyflyrau hyn sy'n destun oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.</p>	<p>Cymunedau Iechyd Integredig y Bwrdd Iechyd sydd bellach yn gyfrifol am reoli eu rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, gan gynnwys goruchwyllo cleifion sy'n wynebu risgiau clinigol oherwydd arosiadau hir.</p> <p>O ystyried y lefelau uchel iawn o gleifion sy'n profi oedi ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, y mae llawer ohonynt o fewn arbenigeddau sy'n rheoli cyflyrau risg uchel, rydym yn dal i fod yn bryderus ynghylch lefel y risg a'r niwed posibl a achosir i gleifion.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw camau gweithredu a gymerir i leihau'r niwed sy'n deillio o oediadau'n ddigon effeithiol. Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwella'i ffocws ar gleifion canser gyda phroses adolygu niweidiau canser wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, mae angen ehangu hyn i gwmpasu'r holl gleifion sydd wedi bod yn aros am yn hwy na'u hamser disgwyliedig.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi archwilio datrysiadau technolegol i adnabod risg glinigol. Fodd bynnag, mae'n gweithredu</p>

Argymhelliad gwreiddiol i gael sylw <sup>3</sup>	Crynodeb o'r cynnydd
	<p>system bapur ar hyn o bryd, sy'n rhwystro'r gallu i fynd ati'n effeithiol i adnabod, uwchgyfeirio a blaenoriaethu'r rhai sy'n wynebu'r risg glinigol fwyaf o niwed. Yn niffyg hyn, mae angen i'r Bwrdd lechyd gryfhau ei brosesau a weithredir â llaw ar hyn o bryd i fonitro a rheoli risgiau clinigol mewn perthynas â'i restrau ar gyfer apwyntiadau i gleifion allanol.</p>
<p>A4 <b>Ar y gweill</b> - Gwella'r broses o gofnodi gwybodaeth am risgiau clinigol mewn perthynas ag achosion o oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion allanol er mwyn sicrhau'r canlyno:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y caiff achosion o niwed yn deillio o oedi eu dadansoddi, eu huwchgyfeirio ac y cyflwynir adroddiad arnynt; a</li> <li>• bod gwaith craffu a sicrhau yn canolbwyntio ar yr arbenigeddau a'r cyflyrau clinigol risg uchel</li> </ul>	<p>Bu cynnydd cyfyngedig o ran rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. Lle ceir achosion o niwed sy'n deillio o oediadau, nid ydym wedi ein sicrhau bod y rhain yn cael eu dadansoddi'n effeithiol ac yr adroddir yn effeithiol arnynt i helpu i hysbysu'r rheolwyr ble i ganolbwyntio a blaenoriaethu camau gweithredu.</p> <p>Ceir peth tystiolaeth o dracio perfformiad gwasanaethau i gleifion allanol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau ond eto nid yw'r rhain yn ymdrin yn ddigonol â goblygiadau o ran risg glinigol na chamau gweithredu wedi'u targedu i leihau'r risg glinigol i gleifion.</p>
<p>A5 <b>Ar y gweill</b> - Nodi'r trefniadau a'r adnoddau rheoli newid sydd eu hangen er mwyn cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau i gleifion allanol yn yr hirdymor a'u rhoi ar waith, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adnoddau clinigol, gan gynnwys meddygon, nyrsys ac ymarferwyr iechyd cysylltiedig;</li> <li>• capasiti a gallu i reoli newid;</li> </ul>	<p>Caiff y rhan fwyaf o swyddi yn nhîm gofal wedi'i gynllunio'r Bwrdd lechyd eu hariannu â'r cyllid anghylchol gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach nag yn uniongyrchol o gyllideb y Bwrdd lechyd. Mae tîm bach wedi'i sefydlu i gyflawni rhaglen gwella gofal i gleifion allanol y Bwrdd lechyd. Yn ystod 2022, fe ganolbwyntiodd y tîm yn bennaf ar gyflwyno'r llwybrau Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd a wnaed o ran rhoi'r llwybrau hyn ar waith yn 2022, tra bo'r cynnydd gyda chynlluniau eraill wedi bod yn arafach oherwydd capasiti cyfyngedig y tîm.</p>

Argymhelliad gwreiddiol i gael sylw <sup>3</sup>	Crynodeb o'r cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol â rhanddeiliaid.</li> <li>• capasiti arwain ym maes gofal sylfaenol a gofal cymunedol i helpu i foderneiddio gwasanaethau i gleifion allanol;</li> </ul>	<p>Cafodd y Bwrdd Iechyd gyllid o £146,500 i drawsnewid gwasanaethau i gleifion allanol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Fe wnaeth y rhai y siaradom ni gyda hwy yn ystod y gwaith maes godi rhai pryderon nad oedd y broses i ddyrannu cyllid i amryw brosiectau'n cael ei thargedu'n effeithiol. Nid oeddem yn gallu adolygu'r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'r cyllid oherwydd trosiant staff o fewn y tîm. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y broses ar gyfer dyrannu cyllid anghylchol yn cael ei ffurfioli, ei bod yn gadarn, yn seiliedig ar flaenoriaethau ac yn canolbwyntio ar welliant cynaliadwy.</p> <p>Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd arweinyddiaeth glinigol wedi'i neilltuo ar gyfer y rhaglen gofal i gleifion allanol i gefnogi ymgysylltu clinigol (<b>Argymhelliad 1, 2023</b>). Mae'r diffyg arweinydd clinigol penodol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau i gleifion allanol wedi arwain at ddbyniaeth ar nifer fach o feddygon ymgynghorol o fewn arbenigeddau i wirfoddoli fel eiriolwyr anffurfiol. O ganlyniad, ceir diffyg arweinyddiaeth glinigol gyson i lywio'r newid a arweinir yn glinigol ar gyfer gwasanaethau i gleifion allanol. Hefyd, mae cymorth corfforaethol ar gyfer rhaglen y Bwrdd Iechyd i drawsnewid gofal i gleifion allanol wedi bod yn dameidiog ac yn ansefydlog, gyda lefelau staffio'n codi a gostwng bob yn ail am bod staff yn gadael neu'n derbyn secondiadau y tu allan i'r tîm.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y rheolwr gweithredol ar gyfer trawsnewid gofal i gleifion allanol ac arweinwyr o leoliadau gofal sylfaenol ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno ymgynghoriadau ar-lein 'Consultant Connect', yn lle'r rhaglen gwella gofal i gleifion allanol.</p> <p>Mae'r ddau bwynt olaf yn yr argymhelliad wedi cael eu disodli.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yr angen i ddechrau ailddylunio'r llwybr gofal economi lechyd yn gynnar, a'i roi ar waith ar yr un pryd â mentrau gwella eraill; a (<b>Wedi'i ddisodli</b>); a</li> <li>• rhoi'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau cysylltiedig diweddar eraill ar waith (<b>Wedi'i ddisodli</b>).</li> </ul>	


## Mae pryderon sy'n parhau ynghylch oedi gydag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn amlygu pwysigrwydd rhoi ein hargymhellion archwilio ar waith fel rhan o weithgareddau ehangach i wella gwasanaethau i gleifion allanol

- 22 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol. Wrth wneud hynny fe wnaethom asesu'r meini prawf canlynol, h.y. pa un a yw'r Bwrdd Iechyd:
- yn mynd ati'n llwyddiannus i reoli'r twf yn y rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau dilynol; ac
  - yn gostwng lefelau'r cleifion sy'n profi oedi sylweddol.

### Mae nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf

- 23 Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2023, tyfodd y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol i gleifion allanol o 204,421 i 236,115 o gleifion (**Arddangosyn 4**). Mae hyn yn gynydd o fwy na 31,000 o gleifion dros y cyfnod hwn. Wrth edrych yn bellach yn ôl, mae mwy na dwywaith cymaint o gleifion yn aros yn awr na phan gyhoeddodd ni ein hadroddiad cyntaf ar [apwyntiadau dilynol i gleifion allanol](#), yn 2015.
- 24 Mae'n debygol y gallai'r galw am apwyntiadau dilynol dyfu a fyddai'n cynyddu'r arosiadau ymhellach. Cafodd y Bwrdd Iechyd lefel uwch nag erioed o atgyfeiriadau ar gyfer gofal a gynlluniwyd (rhwng atgyfeirio a thriniaeth) yn ystod 2022-23 ac mae hyn yn arwain at arosiadau uchel ar y cyfan rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Ond wrth i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ei gapasiti a'i lefelau gweithgarwch i ymdrin ag arosiadau uchel am ofal a gynlluniwyd, bydd llawer o'r cleifion hynny a gaiff eu trin yn cynyddu'r galw am apwyntiadau dilynol wedi hynny.


**Arddangosyn 4: tuedd yn y niferoedd sy'n aros am apwyntiad dilynol fel claf allanol, rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2023**



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- 17 O fewn y rhestr fer o arbenigeddau a amlygir yn **Arddangosyn 5**, ceir niferoedd sylweddol o gleifion sy'n aros am apwyntiad fel claf allanol. Mae rhai arbenigeddau wedi gweld twf mwy eithafol o lawer yn y galw na'i gilydd hefyd. Er enghraifft, mae'r galw am wasanaethau gastroenteroleg a chardioleg wedi tyfu 91% a 65% yn y drefn honno rhwng mis Ebrill 2021 a mis Chwefror 2023. Mae hyn yn awgrymu bod angen camau gweithredu wedi'u targedu i sicrhau bod y capasiti'n ateb y galw.

**Arddangosyn 5: arbenigeddau â'r rhestr aros fwyaf ar gyfer apwyntiadau dilynol, Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Data a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

### Mae nifer fawr o gleifion yn profi oediadau cyn cael eu hapwyntiadau dilynol, gan gynyddu'r risg o niwed ar gyfer llawer o unigolion

- 18 Mae nifer y cleifion sy'n profi oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed yn peri pryder mawr. Efallai na fydd llawer o gleifion sy'n aros yn profi unrhyw niwed o ganlyniad i'r oedi. I eraill gallai eu cyflwr waethygu, gallent ddiodef niwed difrifol na ellir ei wrthdroi a gallent brofi anghysur a allai o bosibl arwain at anallu i weithio neu ddal i fod yn annibynnol yn y gwaith. Ym mis Mawrth 2023, bu oedi gyda 121,116 o'r 236,115 o gleifion (51%) a oedd yn aros am apwyntiad (h.y. fe aethpwyd y tu hwnt i'w dyddiad targed). Mae'r pryder mwyaf yn ymwneud â'r rhai sy'n profi'r oedi hwyaf.
- 19 Fel y dengys **Arddangosyn 6** isod, o'r 121,116 o gleifion hynny y bu oedi cyn iddynt gael apwyntiad dilynol, mae'r mwyafrif (66%) o gleifion yn aros am o leiaf ddwywaith gyn hired am eu hapwyntiad dilynol ag y dylent fod yn aros h.y. maent wedi profi oedi o 100% y tu hwnt i'w dyddiad targed.

**Arddangosyn 6: cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol sydd wedi profi oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed (a ddangosir fel canran yr oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed), Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Data a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Sylwer: Mae gwahanol gyflyrau iechyd yn galw am fframiau amser gwahanol ar gyfer apwyntiad dilynol. O ganlyniad, mae GIG Cymru'n nodi i ba raddau yr aethpwyd y tu hwnt

i ddyddiad targed clinigol (h.y. yn ôl pa ganran y mae claf wedi mynd heibio i'w ddyddiad targed). Byddai oedi o 50% i rywun â dyddiad targed ar gyfer apwyntiad ymhen 4 wythnos yn golygu eu bod wedi bod yn aros am 6 wythnos. Ond mae hefyd yn wir bod rhywun â dyddiad targed o 6 mis sydd wedi bod yn aros am 9 mis wedi profi oedi o 50% hefyd.

- 20 Mae rhai o'r cleifion yn aros am ddwywaith gyn hired ag y dylent fod mewn arbenigeddau sydd â lefelau uchel o oediadau eithafol a risg uchel o niwed (**Arddangosyn 7**). Er enghraifft, gwasanaethau offthalmoleg sydd â'r rhestr aros fwyaf ar gyfer apwyntiadau dilynol. O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2023, roedd 34,945 o gleifion yn aros, yr oedd 15,194 ohonynt wedi bod yn aros am fwy na dwywaith gyn hired ag y dylent fod wedi bod yn aros am apwyntiad dilynol. Mae offthalmoleg yn arbenigedd risg uchel o ran y niwed a allai ddeillio o oedi cyn cael apwyntiadau dilynol. Mae Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr wedi dweud bod 'niwed parhaol o ganlyniad i oedi cyn rhoi gofal, o ran achos o golli golwg y gellid bod wedi'i osgoi, 9 gwaith yn fwy tebygol o ddigwydd mewn cleifion dilynol nag mewn cleifion newydd'.
- 21 Ceir cyflyrau clinigol mewn arbenigeddau eraill sydd hefyd yn arwain at risg sylweddol i gleifion oherwydd oedi. Felly rhaid i'r Bwrdd Iechyd leihau ei arosiadau'n effeithiol ac, yn hollbwysig, rhaid bod cleifion sy'n wynebu risg glinigol uwch o niwed yn cael eu rheoli mewn modd rhagweithiol.

**Arddangosyn 7: arbenigeddau â'r nifer uchaf o gleifion a fu'n aros ddwywaith gyn hired ag y dylent fod wedi bod yn aros am apwyntiad dilynol (h.y. oedi o 100%), Mawrth 2023**



Ffynhonnell: Data a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion

### Arddangosyn 8: Ymateb i argymhellion newydd a wnaed yn 2023.

Mae'r tabl isod yn dangos yr argymhellion newydd a wnaed yn 2023 fel rhan o'r adolygiad o wasanaethau dilynol i gleifion allanol.

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
A1 (2023) Cymryd camau ar unwaith i gryfhau'r arweinyddiaeth glinigol ar gyfer y rhaglen o waith i wella perfformiad gwasanaethau dilynol i gleifion allanol.	<p>Cychwynnwyd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio sydd wedi cael ei diweddarau a honno'n cwmpasu mentrau trawsnewid gofal i gleifion allanol. Mae gan y rhaglen 5 ffrwd waith graidd sef:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Diagnosteg</li><li>• Trawsnewid digidol a phrofiad cleifion</li><li>• Gwybodeg, data a chynllunio</li><li>• Llwybrau a GiRFT</li><li>• Cyfathrebu ac ymgysylltu</li></ul> <p>Mae arweinydd clinigol a rheolaethol wedi'u penodi i bob ffrwd waith ategol ac mae gan y rhaglen uwch arweinydd clinigol ar y cyfan o Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.</p>	Wedi'i gwblhau	Cyfarwyddwr Gweithredol Interim ar gyfer Gweithrediadau

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>A2 (2023) Datblygu ymateb newydd gan y rheolwyr i'r argymhellion archwilio a wnaed yn 2015 sy'n dal heb eu cyflawni a hwnnw'n nodi camau gweithredu eglur i roi'r argymhellion ar waith yn llawn, graddfeydd amser ar gyfer eu rhoi ar waith a'r swyddogion sy'n gyfrifol.</p>	<p>Wedi'i nodi isod</p>		

**Ymateb i'n hargymhellion 2015 nad ydynt wedi'u cwblhau eto.**

Sylwer: I sicrhau nad yw'r Bwrdd Iechyd ond yn ymateb i'r agweddau ar argymhellion blaenorol sydd heb eu cwblhau, rydym wedi tynnu allan yr agweddau ar argymhellion blaenorol sydd naill ai wedi'u cwblhau neu wedi cael eu disodli yn ein tyb ni.

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>A2 Datblygu'r warws gwybodaeth busnes ar gyfer cleifion allanol y mae angen apwyntiad dilynol arnynt drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ehangu cwmpas, dyfnder a manylder y wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau y gall rheolwyr a staff gael gafael ar wybodaeth weithredol sy'n berthnasol i'w hangen busnes adrannol.</li> <li>defnyddio'r wybodaeth i leihau amrywiadau clinigol ar draws safleoedd, cyflyrau clinigol ac ymhlith clinigwyr.</li> </ul>	<p>Rydym wedi sefydlu set o ddangosfyrddau gofal wedi'i gynllunio sydd bellach yn ei gwneud yn bosibl mynd i lawr at y glo mân ar lefel cleifion unigol gan sicrhau ein bod yn gallu rheoli ein heriau mewn ffordd gyson a chydag un dull gan felly leihau amrywiadau posibl.</p> <p>Trwy sefydlu rhaglen lleihau dilynol â ffocws ar gyfer y cynllun, rydym bellach yn defnyddio'r wybodaeth hon i ysgogi gwelliant a chysondeb y dull gweithredu rhwng safleoedd, ac i ddeall a rheoli lle y gellir cyfiawnhau amrywiant (e.e. problemau gweithlu neu wasanaethau penodol yn lleol).</p>	<p>Dangosfyrddau wedi'u lansio ym mis Gorffennaf 2023</p> <p>Rhaglen lleihau dilynol wedi'i ffurfioli a'i lansio Awst 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Interim ar gyfer Gweithrediadau</p>

<p>A3 Nodi cyflyrau clinigol ym mhob arbenigedd lle y gallai cleifion ddioddef niwed na ellid ei wyrddroi os bydd oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol. Datblygu ymyriadau er mwyn lleihau'r risg i gleifion â'r cyflyrau hyn sy'n destun oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.</p>	<p>Rydym yn mynd ati'n barhaus i adolygu ein risgiau ac mae ein rhaglen lleihau risgiau apwyntiadau dilynol yn gweithio i sicrhau ein bod yn cynyddu i'r eithaf y defnydd o'r opsiynau o ran llwybrau Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf a Sylw yn ôl Symptomau i sicrhau mai dim ond y cleifion y mae angen apwyntiadau dilynol arnynt sy'n cael eu gwneud felly ar angen clinigol. Mae arbenigeddau unigol yn rheoli eu cleifion yn unol â rheolau RTT o ran risg - e.e. Canser, Brys, a Threfn.</p> <p>Ar gyfer apwyntiadau dilynol naill ai fel rhan o driniaeth neu yn dilyn ymyrraeth glinigol, bydd y clinigwr trin yn gosod risg glinigol yn unol â chanllawiau cenedlaethol.</p> <p>Er enghraifft, yn achos gofal llygaid, er mwyn rheoli a lliniaru yn erbyn colli golwg na ellir ei wrthdroi, dilynir cleifion â chyflyrau risg a nodwyd (Retinopathi, Dirywiad Macwlaidd a Glaucoma), cleifion yn ôl haeniad risg cenedlaethol Cymru (carfannau R1 ac R2). Yn yr achos hwn, rydym yn gweithio gydag optometreg cymunedol i ehangu ein gallu dilynol sydd ar gael i sicrhau ein bod yn cynnal rheolaeth llwybr amserol ac nad yw cleifion sydd mewn perygl o golli golwg na ellir eu</p>	<p>Bydd y rhaglen lleihau risg apwyntiadau dilynol yn cael ei chwblhau yn gynnar yn 2024 ond bydd gwaith i gynyddu dewisiadau dilynol eraill i'r eithaf yn dal i fynd rhagddo</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Interim ar gyfer Gweithrediadau</p>
---	---	---	--

gwrthdroi yn rhy hwyr ar gyfer apwyntiadau dilynol.

Rydym hefyd wedi cynnal adolygiad helaeth o ddilyniant hwyr mewn gwasanaethau plastig i roi sicrwydd nad oes unrhyw gleifion yn dod i niwed o ganlyniad i arosiadau estynedig.

<p>A4 Gwella'r broses o gofnodi gwybodaeth am risgiau clinigol mewn perthynas ag achosion o oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion allanol er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y caiff achosion o niwed yn deillio o oedi eu dadansoddi, eu huwchgyfeirio ac y cyflwynir adroddiad arnynt; a</li> <li>• bod gwaith craffu a sicrhau yn canolbwyntio ar yr arbenigeddau a'r cyflyrau clinigol risg uchel</li> </ul>	<p>Adroddir ar yr holl ddigwyddiadau clinigol trwy Datix yn unol â phrotocol rheoli risg a digwyddiadau y byrddau iechyd.</p> <p>Bydd y gweithgaredd hwn yn gweld rheolaeth yr ymddiriedolaeth i feysydd sy'n peri pryder a dim ond un agwedd ar risg glinigol ydyw. Mae prosesau sicrwydd eraill ar waith, yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canser a MDTs clinigol eraill (i sicrhau bod risg glinigol yn cael ei reoli'n briodol ar lefel claf).</li> <li>• Archwilio Clinigol a chyfarfodydd llywodraethu clinigol arferol (i sicrhau bod systemau'n gweithredu i'r canlyniadau disgwylidig a bod modd nodi patrymau a data tueddiadau a chymryd ymyrraeth briodol lle bo angen).</li> <li>• Cyfarfod mynediad corfforaethol wythnosol y Bwrdd Iechyd Arferol lle rheolir perfformiad ar gyflawni yn erbyn safonau RTT ac amseroedd aros dewisol ac unrhyw faterion sy'n cael eu cyfeirio at PFIG a'r Tîm Gweithredol.</li> </ul>	<p>yn barhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Interim ar gyfer Gweithrediadau</p>
---	--	-------------------	--

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
<p>A5 Nodi'r trefniadau a'r adnoddau rheoli newid sydd eu hangen er mwyn cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau i gleifion allanol yn yr hirdymor a'u rhoi ar waith, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adnoddau clinigol, gan gynnwys meddygon, nyrsys ac ymarferwyr iechyd cysylltiedig;</li> <li>• capasiti a gallu i reoli newid;</li> <li>• ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol â rhanddeiliaid;</li> <li>• capasiti arwain ym maes gofal sylfaenol a gofal cymunedol i helpu i foderneiddio gwasanaethau i gleifion allanol.</li> </ul>	<p>Mae sefydlu Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio PBC yn dwyn ynghyd glinigwyr a rheolwyr ar draws arbenigeddau gyda chymorth ein tîm trawsnewid a gwella, digidol a chynllunio a chyfathrebu ac ymgysylltu.</p> <p>Mae Bwrdd y Prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o leoliadau Gofal Sylfaenol ac mae'r Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio'n eistedd ar y Grŵp Rhaglen Gofal Sylfaenol i sicrhau cydgysylltu gwell.</p>	<p>Wedi'i sefydlu ers mis Awst 2023</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Interim ar gyfer Gweithrediadau</p>



Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and  
telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.